# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2013/14

**Cynghorydd:** Ann Williams **Grŵp:** Plaid Cymru

**Ward:** Ogwen

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**
Aelod dros Ward Ogwen, Bethesda
Aelod o'r pwyllgorau canlynol: Craffu Gwasanaethau, Trwyddedu, Apelau Cyflogaeth, Fforwm Ardal Bangor-Ogwen

**Gweithgareddau etholaethol:**

Cynnal cymorthfeydd anffurfiol yn rheolaidd er mwyn derbyn cwynion a sylwadau fy etholwyr
Mynychu cymorthfeydd Hywel Williams AS ac Alun Ffred AC yn rheolaidd yn y dyffryn
Cefnogi a chynorthwyo etholwyr unigol, a grwpiau o etholwyr,mewn nifer o achosion
Cadw golwg cyson ar gyflwr y ward wrth fynd o gwmpas
Ymgyrchu'n galed a rheoladd i wella sefyllfa baw ci a sbwriel yn fy ward
Cysylltu, a chyfarfod yn rheolaidd, gyda swyddogion y Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r ward
Wedi llwyddo i gael y Cyngor i ail-wynebu ffordd Bryn Coetmor
Sicrhau fod yr holl ward yn cael sylw teg gan y Cyngor
Cyswllt cyson gyda'r Heddlu ynglyn â chyfraith a threfn yn y ward
Cyswllt rheolaidd gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd er mwyn sicrhau lles y tenantiaid
Wrthi'n cydweithio efo Cwmni Arriva i wella gwasanaeth bwsiau ardal Dyffryn Ogwen
Wrthi'n gweithio gydag Aelod Cynulliad, ac aelodau o wahanol grwpiau, i geisio atgyfodi'r gwasanaeth bws o Fethesda i Fetws y Coed
Wedi mynychu ymgynghoriad ar ddyfodol y Llyfrgell yn y ward
Wedi mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion y Cyngor i drafod dyfodol Canolfan Cefnfaes
Wedi mynychu cyfarfod gyda'r swyddogion perthnasol ynglyn â chodi ffioedd yn y ddau faes parcio yn fy ward
Yr wyf yn cydweithio gyda Swyddogion y Cyngor i geisio datrys problemau goryrru mewn ambell le yn y ward
Uchafbwynt y flwyddyn oedd bod yn un o drefnwyr Gorymdaith Gwyl Ddewi, a chydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen, y Cyngor Cymuned, a Rheolwr Neuadd Ogwen, i gael diwrnod llwyddiannus iawn

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Aelod o Grŵp Balchder Bro Dyffryn Ogwen sy'n gweithredu i gynnal taclusrwydd y dyffryn – er enghraifft, codi sbwriel, gosod basgedi crog, glanhau graffiti oddi ar furiau adeiladau ar y Stryd Fawr
Aelod o Gyngor Cymuned Bethesda
Aelod o Bartneriaeth Ogwen
Aelod o Bwyllgor Llys Dafydd
Aelod o Grŵp Parch sy'n gweithio i gael parc Sglefr-fyrddio ym Methesda
Ysgrifenyddes Pwyllgor Rheoli Canolfan Cefnfaes
Aelod o Bwyllgor Rheoli'r Caban, Gerlan
Aelod o Bwyllgor Caban Cysgu, Gerlan
Aelod o Gyngor Plwyf Eglwysig Eglwys Glanogwen
Aelod o Bwyllgor Cyswllt Chwarel y Penrhyn
Cefnogi Clwb yr Henoed Gorffwysfan
Cynorthwyo Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen
Cynorthwyo papur bro Llais Ogwen fel gohebydd lleol
Cynorthwyo Eisteddfod Dyffryn Ogwen
Is-drysorydd Apêl Eleanor Jones i gasglu arian i brynu offer i Ward Alaw. Rydym wedi casglu yn agos i £35,000 erbyn hyn, ac wedi prynu gwahanol offer i'r ward
Ymweliadau i Gartref yr Henoed Plas Ogwen
Trefnu boreau coffi i godi arian at achosion da

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 5 |

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 5 |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 4 |
| Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog | 4 |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | 2 |
| Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 4 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 4 |

Canran Presenoldeb: 97%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**
**-**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty i'r Cartref

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
Ysgol Pen y Bryn (Llywodraethwr)
Ysgol Abercaseg (Llywodraethwr)
Canolfan Cefnfaes

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**
**-**

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Llywodraethu Effeithiol | 9/4/2014 |
| Strategaeth Gwastraff | 7/5/2014 |
| Gweithdai Diogelu Plant ac Oedolion Bregus | 7/5/2014, 24/6/2014, 4/72014 |
| Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol | 17/9/2014 |
| Gwe-ddarlledu | 26/11/2014 |
| Arwain yn Ddiogel | 5/12/2014 |
| Y drefn newydd Categoreiddio Ysgolion | 14/1/2015 |

| **Ychwanegol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Hyfforddiant Cynllunio | 21/5/2014 |
| | |

Cyfanswm nifer o oriau:  27.5 awr